

# Ein canllaw i gwsmeriaid ar gyfer gwneud neu dderbyn taliadau gyda Hafren Dyfrdwy

RHAGOROL O'R TAP  
WONDERFUL ON TAP



Rydym wedi creu'r canllaw hwn i ddarparu cymorth ac arweiniad ichi ynglŷn â gwneud taliadau i Hafren Dyfrdwy, y gwahanol ddulliau talu sydd ar gael ichi, a'r taliadau y gallem ni eu gwneud ichi.

## Sut i wneud taliadau i Hafren Dyfrdwy

Mae yna amryw o ffyrdd y gallwch wneud taliadau inni. Gallwch ddewis y dull talu sy'n cydfynd orau â'ch anghenion chi, o'r ystod o wahanol opsiynau talu, isod.

### Talu ar-lein

- Talu ar-lein â cherdyn credyd neu ddebyd – dyma ddull cyflym, syml a diogel o dalu. Gallwch wneud taliad cyflym â cherdyn gan ddefnyddio'ch cyfrif ar-lein. Gallwch gofrestru ar gyfer cyfrif ar-lein yn [www.hdcymru.co.uk/my-account/register](http://www.hdcymru.co.uk/my-account/register) os nad oes gennych gyfrif eisoes, neu gallwch wneud taliad â cherdyn fel gwestai yn [www.hdcymru.co.uk/fastpay](http://www.hdcymru.co.uk/fastpay)
- Talu ar eich ffôn clyfar gan ddefnyddio Barclays Pingit – os ydych yn gwsmer nad ydyw'n talu â Debyd Uniongyrchol, gallwch dalu'ch bil drwy ddefnyddio ap Barclays Pingit ar eich ffôn clyfar.

### Talu'n awtomatig

- Talu drwy Ddebyd Uniongyrchol – gallwch dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol yn gyflym ac yn hawdd; dyma’r ffordd fwyaf cyfleus o sicrhau y caiff eich bil bob amser ei dalu’n llawn ac ar amser. Gallwch chi ddewis y dyddiad, yr amlder a thrafod y swm rydych yn ei dalu â ni. Mae hyn yn sicrhau y caiff eich taliad ei anfon atom bob tro heb i chi orfod pryderu amdano.
- Talu drwy Archeb Sefydlog – gallwch sefydlu a rheoli’ch taliadau gan ddefnyddio gwasanaethau bancio ffôn, ar-lein, neu o bell eich banc. Unwaith y byddwch wedi sefydlu’ch Archeb Sefydlog, mae’n rhaid ichi gysylltu â ni i adael inni wybod dyddiad y taliad, yr amledd a swm y taliad rydych wedi’u dewis. Gwnawn ninnau wedyn sefydlu cynllun talu ar eich cyfrif i gyd-fynd â’r hyn rydych wedi’i drefnu â’ch banc. Bydd hyn yn atal unrhyw ragor o lythyrau atgoffa neu adennill dyledion rhag digwydd ar eich cyfrif. Mae’n rhaid ichi sicrhau eich bod yn nodi’ch rhif cyfrif Dŵr Hafren Dyfrdwy fel y cyfeirnod talu, fel y gellir cymhwyso’r taliadau hyn i’ch cyfrif heb oedi.
- Talu drwy’ch budd-daliadau â Dŵr Uniongyrchol - os ydych yn derbyn Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Credyd Pensiwn neu Gredyd Cynhwysol, gallwch wneud cais am Dŵr Uniongyrchol lle y gellir talu taliadau’n awtomatig o’ch budd-daliadau.

#### **Talu’n Bersonol**

- Talu mewn siop PayPoint – gallwch dalu gan ddefnyddio Cerdyn Dŵr yn eich siop PayPoint leol. Gallwch hefyd dalu mewn siop PayPoint gan ddefnyddio llyfryn talu neu drwy ddefnyddio’r cod bar ar y slip giro ar waelod eich bil.
- Talu yn eich banc - os yw’n amgenach gennych dalu dros y cownter yn eich banc neu’ch cymdeithas adeiladu, peidiwch ag anghofio mynd â’ch bil gyda chi. Mae’r gwasanaeth hwn yn rhad ac am ddim yn y rhan fwyaf o fanciau. Fodd bynnag, argymhellwn eich bod bob amser yn gwirio’n gyntaf.
- Talu yn Swyddfa’r Post – gallwch fynd â’ch bil gyda chi, ynghyd â’ch dull dewisol o dalu mewn naill ai arian parod neu gerdyn, i unrhyw Swyddfa’r Post i wneud taliad. Byddwch yn ymwybodol, os gwelwch yn dda, y gall Swyddfa’r Post godi tâl arnoch am y gwasanaeth hwn.

#### **Talu drwy’r post neu ar y ffôn**

- Talu drwy’r Post – os ydych yn derbyn biliau papur, bydd eich bil yn cyrraedd gyda slip talu wedi’i atodi wrtho lle y gallwch ei gwblhau ac ysgrifennu siec am y swm hwn.
- Talu ar y Ffôn - gallwch wneud taliadau rheolaidd neu untro ar y ffôn drwy gerdyn Debyd neu Gredyd pan ffoniwch ni ar 0330 678 0679.

Gallwch ganfod mwy o wybodaeth am sut y gallwch dalu’ch bil yn [www.hdcymru.co.uk/my-account/help-when-you-need-it/help-with-paying-your-bill/payment-options](http://www.hdcymru.co.uk/my-account/help-when-you-need-it/help-with-paying-your-bill/payment-options).

#### **Sefydlu a gwneud newidiadau i’ch amserlen dalu**

Y ffordd hawsaf o fod ar amser gyda'ch amserlen dalu yw drwy dalu'ch bil mewn rhandaliadau rheolaidd ar gynllun talu. Bydd hyn yn caniatáu ichi reoli'ch biliau ac yn eich helpu i gyllidebu ar gyfer y dyfodol.

Gallwch ddewis y diwrnod mwyaf cyfleus i wneud eich taliadau, yn ogystal â'r amledd sy'n addas i chi, e.e., yn wythnosol neu'n fisol. Mae sefydlu cynllun talu yn wirioneddol hawdd, y cwbl y mae arnoch angen ei wneud yw mewngofnodi i gyfrif Hafren Trent, dewis yr hyn sydd fwyaf addas i chi, a gadael i ni wneud y gweddill.

Os ydych wedi trefnu cynllun talu rheolaidd gyda ni, byddwch wedi derbyn amserlen cynllun talu naill ai trwy'r post neu drwy e-bost. Gellir canfod hyn naill ai ar eich bil neu efallai eich bod wedi derbyn llythyr neu e-bost ar wahân yn cadarnhau'ch cynllun.

I weld neu i newid eich amserlen dalu neu'ch cynllun talu presennol, gallwch fewngofnodi i'ch cyfrif Hafren Trent yn [www.hdcymru.co.uk](http://www.hdcymru.co.uk) neu gallwch gysylltu â ni yn [www.hdcymru.co.uk/contact-us](http://www.hdcymru.co.uk/contact-us).

Os ydych yn ei chanfod hi'n anodd cadw at eich amserlen dalu, cysylltwch â ni fel y gallwn drefnu cynllun talu sy'n addas i chi a'ch anghenion ariannol.

Ni fyddem byth yn cynghori diddymu neu atal taliadau, gan y gall hyn arwain at ddyled yn cronni ar eich cyfrif ac yn creu sgôr credyd negyddol a allai effeithio ar eich gallu i gael benthyciad neu wasanaeth yn y dyfodol.

### **Diweddarau'ch Debyd Uniongyrchol os ydych yn newid banciau**

Os ydych wedi newid banciau drwy'r gwasanaeth Newid Cyfrif Cyfredol, bydd eich banc newydd yn cysylltu â'ch hen fanc ac yn sicrhau bod eich holl Ddebydau Uniongyrchol a Thrafodiadau yn dal i gael eu hanfon allan fel sy'n arferol.

Os ydych wedi cau un cyfrif banc ac wedi newid i gyfrif banc arall yn annibynnol, ni fydd eich Debyd Uniongyrchol yn parhau tan rydych yn ein hysbysu am eich manylion Debyd Uniongyrchol newydd.

### **Ad-dalu Debydau Uniongyrchol anghywir**

Gallwn ddeall ei bod hi'n rhwystredig os canfyddwch fil annisgwyl wedi'i gymryd o'ch cyfrif.

Er mwyn sicrhau y caiff yr arian hwn ei ad-dalu ichi cyn gynted â phosibl, byddem yn eich cynghori i gysylltu â'ch banc i wneud hawliad indemniad.

Caiff eich taliad ei ddiogelu o dan Warant y Debyd Uniongyrchol ac fe gewch eich arian yn ôl o fewn 24 awr.

## Cynlluniau talu hyblyg os yw'ch amgylchiadau ariannol yn newid

Gwyddom fod amgylchiadau'n digwydd weithiau sy'n golygu y gall hi fod yn anodd talu'ch biliau.

Cynigiwn gynlluniau talu hyblyg sydd ar gael i helpu'r cwsmeriaid hynny sy'n profi cyni ariannol dros dro nad ydynt yn gallu fforddio'n cynllun talu safonol i dalu'ch balans yn y flwyddyn ariannol.

Caiff cynllun talu hyblyg ei gyfrifo ar gyfrifiannell fforddiadwyedd, ac fel arfer mae'n swm y cytunwyd arno i'ch atal chi, fel cwsmer, rhag mynd i ragor o ôl-ddyledion.

Pennir y cynllun am 3 mis, ac fe'i hadolygir gan ein tîm Rheoli Credyd, a phan fydd i fod i orffen, fe wnânt geisio'ch ffonio i drafod y cynllun a'ch amgylchiadau, gyda'r nod o ail-bennu'ch cynllun talu yn unol â'r swm safonol.

Os methwn â'ch cyrraedd ar y ffôn, gwnawn adolygu a chynyddu'n awtomatig eich cynllun o leiaf 20%, ac fe dderbyniwch e-bost neu lythyr i gadarnhau'ch symiau talu newydd.

Os nad ydych yn gallu fforddio'r swm uwch, bydd gennych 14 diwrnod o'r dyddiad yr anfonwyd yr ohebiaeth atoch i gysylltu â ni i drafod hyn yn fanylach.

## Cymorth ariannol pan fydd arnoch ei angen

Os bydd arnoch angen cymorth llaw o gwbl, mae gennym amryw o gynlluniau cymorth ariannol i'ch cynorthwyo.

1. **WaterSure** - gall y cynllun cymorth ariannol hwn eich helpu os yw'ch incwm yn isel ac rydych yn defnyddio llawer o ddŵr. Mae WaterSure yn agored i gwsmeriaid sydd ar fesurydd dŵr, sy'n derbyn budd-daliadau ac sydd â thri neu fwy o blant sy'n iau na 19 oed, neu os oes cyflwr meddygol sydd angen y defnydd ychwanegol o ddŵr.  
[www.hdcymru.co.uk/watersure](http://www.hdcymru.co.uk/watersure)
2. **Here2Help** – mae'r cynllun hwn yn agored i bob cwsmer, a gallwch arbed hyd at 90% ar eich bil. [www.hdcymru.co.uk/here2help](http://www.hdcymru.co.uk/here2help).

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein cynlluniau, gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio sgwrsio byw, cyfryngau cymdeithasol neu drwy'n ffonio ar 0330 678 0679. Ewch i [www.hdcymru.co.uk/contact-us](http://www.hdcymru.co.uk/contact-us) i gysylltu â ni.

## Deall eich bil

Mae arnom eisiau sicrhau bod eich bil mor eglur â phosibl, yn enwedig os ydych yn gwsmer newydd i Dŵr Hafren Trent. Mae arnom eisiau sicrhau eich bod yn deall yr holl wahanol ddarnau o wybodaeth rydym wedi'u hanfon atoch.

Os oes gennych fesurydd dŵr yn eich eiddo, bydd tu blaen eich bil yn rhoi crynodeb cyffredinol ichi o wybodaeth am eich cyfrif, a phris eich bil, yn union fel y Gwerth Ardrethol.

Ar hwnnw, fe wnewch hefyd ganfod gwybodaeth megis:

- Sut i gysylltu â ni a chofrestru ar gyfer cyfrif ar-lein.
- Y dyddiad y gwnaethom greu'r bil (dyddiad cyhoeddi).
- Balans eich bil (p'un a oes arnoch swm inni neu a oes gennych gredyd ar eich cyfrif fydd yn mynd tuag at eich bil nesaf).
- Eich cynllun talu, e.e., Debyd Uniongyrchol a dyddiad casglu'r taliad nesaf (os yw'n berthnasol).
- Darlleniadau mesuryddion a sut i gyflwyno darlleniad newydd.
- Cyfanswm gwariant dros y cyfnod o amser a gwariant dyddiol cyfartalog, yn cynnwys cynghorion effeithlonrwydd dŵr ynglŷn â sut i arbed dŵr ar eich aelwyd.
- Gwybodaeth am ansawdd dŵr ac ym mha gyflwr y mae yn eich ardal, a'n taliadau dŵr wyneb a'n taliadau draenio priffyrdd.

Os nad oes gennych fesurydd dŵr yn eich eiddo, anfonir bil atoch ar y Gwerth Ardrethol. Yn nodweddiadol, fe wnewch dderbyn un bil am y flwyddyn. Fel arfer, fe dderbyniwch hwn oddeutu mis Chwefror neu fis Mawrth. Fodd bynnag, bydd cyfnod eich bil fel arfer yn weithredol o'r 1<sup>af</sup> o Ebrill tan yr 31<sup>ain</sup> o Fawrth y flwyddyn wedyn. Fe gewch eich bilio o flaen llaw am eich taliadau dŵr a dŵr budr.

Bydd eich bil yn cynnwys llawer o'r uchod. Fodd bynnag, bydd yn cynnwys gwybodaeth am eich cynllun talu safonol, e.e., eich rhandaliadau o Ddebyd Uniongyrchol y cytunwyd arnynt a sut mae hyn yn datblygu, a sut daliadau fydd gennych am y 12 mis nesaf.

Gellir ymestyn eich bil dros randaliadau misol, fel ein holl gynlluniau talu. Rhannir eich bil fel arfer dros 8 taliad, yn dechrau ym mis Ebrill, gan olygu y bydd gennych 4 mis lle na fydd arnoch angen talu tan rydych yn derbyn eich bil nesaf. Fodd bynnag, gallwn ymestyn eich taliadau dros fwy o fisoedd os yw hyn yn amgenach gennych. Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, os hoffech wneud hyn.

I gael mwy o wybodaeth am eich bil a sut mae'n edrych, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, drwy ddefnyddio sgwrsio byw, cyfryngau cymdeithasol neu drwy'n ffonio ar 0330 678 0679, ac fe drafodwn eich bil gyda chi.

**Mae taliad wedi'i wneud ond mae'ch cyfrif yn dal i ddangos swm sy'n ddyledus**

Os ydych wedi talu'ch bil drwy'r post neu'n bersonol, gall taliadau gymryd rhwng 3-5 diwrnod gwaith i'w prosesu a'u dyrannu i'ch cyfrif.

Os ydych wedi talu gan ddefnyddio cerdyn Debyd neu Gredyd, caiff eich taliadau fel arfer eu diweddarau o fewn 24 awr.

Ein nod yw cael ein holl gyfrifon wedi'u diweddarau cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, gwyddom y gall gymryd mwy o amser weithiau oherwydd diweddariadau i'r system, gwallau bancio neu niferoedd mawr o daliadau i'w prosesu.

Os yw'ch cyfrif, ar ôl 3 diwrnod, yn dal i ddangos bod gennych daliad dyledus, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

### **Ddim wedi derbyn bil pan wnaethoch symud cartref**

Os ydych wedi symud yn ddiweddar i eiddo newydd neu wedi cymryd cyfrifoldeb dros y bil dŵr ar eich aelwyd, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Mae'n bwysig ein bod yn gwybod pwy sy'n byw yn ein rhanbarth, fel y gallwn ddeall y galw ar ein rhwydwaith a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Weithiau, gall oediadau ddigwydd os ydych newydd brynu eiddo sydd newydd ei adeiladu, gan fod arnom angen gosod y rhain ar ein system, a gall hyn gymryd hwy nag arfer.

Os ydych, ar ôl ichi gysylltu â ni, byth heb dderbyn bil o fewn 3 mis, cofiwch gysylltu â ni, os gwelwch yn dda, gan ei bod hi'n bosibl nad oes gennym y manylion cysylltu cywir ichi.

### **Ad-daliadau os ydych yn gordalu**

Os oes gennych fesurydd dŵr ac rydych yn talu fesul rhandaliadau ar gynllun talu, bydd hyn yn awtomatig yn darogan eich taliadau yn y dyfodol i fagu credyd ar eich cyfrif o flaen eich bil chwech misol nesaf.

Seilir eich rhagolwg ar eich defnydd dyddiol cyfartalog o ddŵr o'r darlleniadau y byddwn wedi'u cymryd o'ch mesurydd.

Pan dderbyniwch eich bil chwech misol, os ydych yn dal mewn swm mawr o gredyd, efallai y bydd angen adolygu'ch cynllun talu, ac felly cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Os oes gennych gyfrif presennol â Hafren Dyfrdwy ac rydych wedi gadael inni wybod yn ddiweddar eich bod wedi symud i dŷ newydd o fewn rhanbarth Hafren Dyfrdwy, byddwn fel arfer yn parhau i ddefnyddio'ch manylion a'ch rhif cyfrif presennol, a byddwn yn adolygu a yw'ch cynllun talu'n dal yn addas.

Os ydych wedi symud i dŷ newydd y tu allan i ranbarth Hafren Dyfrdwy, ac mae'ch cyfrif ar gyfer eich hen gyfeiriad mewn credyd, gwnawn anfon ad-daliad atoch o fewn 14 niwrnod ar ôl inni gael ein hysbysu eich bod wedi gadael yr eiddo. Os nad ydych wedi gadael inni wybod eto eich bod wedi symud i dŷ newydd, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

- Os ydych wedi bod yn talu inni drwy Ddebyd Uniongyrchol, yna fe anfonwn yr ad-daliad yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc.
- Os ydych wedi talu inni drwy gerdyn Debyd neu Gredyd, gwnawn fel arfer ei ad-dalu i'r un cerdyn.
- Os ydych wedi talu inni drwy unrhyw ddull arall, neu os na allwn wneud ad-daliad â cherdyn, anfonwn ad-daliad â siec ichi. Gall hyn weithiau gymryd hyd at 28 niwrnod.

### **Os anfonir bil atoch sydd wedi'i gyfeirio at rywun arall**

Os ydych wedi derbyn bil oddi wrth Hafren Trent nad ydyw ar eich cyfer chi, neu rywun arall sy'n byw ar eich aelwyd, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, i adael inni wybod, a gallwn weithio i ddatrys hyn.

### **Mae'n ofynnol i landlordiaid adael inni wybod am newidiadau i eiddo**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rheoliadau sy'n golygu ei bod hi'n ofynnol i landlordiaid adael inni wybod am un rhyw newidiadau i eiddo sy'n derbyn gwasanaethau gennym ni.

Mae'r rheoliadau yn mynnu bod landlordiaid yn sicrhau y cawn ein hysbysu am unrhyw newidiadau yn ymwneud â thenantiaid yn eu heiddo o fewn 21 niwrnod. Os na chawn ein hysbysu, gall y landlord fod yn atebol ar y cyd am y taliadau.

Mae Landlord TAP yn wefan hawdd ei defnyddio sy'n caniatáu i landlordiaid ac asiantiaid rheoli eiddo preswyl yng Nghymru a Lloegr ddarparu manylion i gwmnïau dŵr y rheiny sy'n gyfrifol am dalu taliadau dŵr a/neu garthffosiaeth eu heiddo sydd â thenant.

Gallwch gofrestru yn Landlord TAP yn [www.landlordtap.com](http://www.landlordtap.com).

**Fel tenant**, eich cyfrifoldeb chi yw gadael inni wybod pan wnaethoch symud i'r eiddo a sefydlu cynllun talu gyda ni a all fod yn addas i'ch anghenion ac sy'n ymdrin â'ch defnydd.

Y chi hefyd sy'n gyfrifol am unrhyw ollyngiadau sy'n digwydd yn yr eiddo – mae hyn yn rhywbeth y gallech ddymuno'i drafod â'ch landlord os ydych yn wynebu bil defnydd uchel oherwydd bod yna ollyngiad ym mhibellau preifat eich cartref.

### **Problemau â thalu'ch bil drwy'ch budd-daliadau**

Os ydych yn cael problemau o ran cysoni'ch bil dŵr â'ch taliadau budd-daliadau, efallai ei bod yn debygol bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn defnyddio cyfeirnod anghywir, sy'n golygu nad yw'ch taliadau'n cael eu derbyn yn uniongyrchol i'ch cyfrif mewn pryd.

Os felly mae hi, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â'r Adran Gwaith a Phensiynau cyn ichi gysylltu â ni i wirio pa gyfeirnod y maent yn ei ddefnyddio a pha symiau a gaiff eu didynnu; bydd hyn yn ein helpu i'w lleoli i'ch cyfrif.

Os oes yna ddidyniadau lluosog i gyfleustodau eraill yn cael eu tynnu o'ch budd-daliadau, gall hyn fod yn rheswm arall pam nad ydym wedi derbyn eich taliadau.

Gallwch gael hyd at uchafswm o 3 o ddidyniadau ar y tro, ac efallai bod y didyniadau oedd fod i ni wedi'u newid er mantais cyfleustod arall, gan mai y ni yw'r flaenoriaeth isaf.

## **Ewch am fesurydd a dim ond talwch am y dŵr a ddefnyddiwch**

Os ydych yn byw ar eich pen eich hun, neu os oes gennych deulu bychan, neu os ydych yn byw mewn tŷ, gallai fod yn fuddiol cael mesurydd wedi'i osod fel bod eich biliau wedi'u seilio ar gyfaint gwirioneddol y dŵr rydych yn ei ddefnyddio yn hytrach nag ar y Gwerth Ardrethol.

Gallwch ddefnyddio cyfrifiannell annibynnol Cyngor Defnyddwyr Cymru yn [www.ccwater.org.uk/watermetercalculator](http://www.ccwater.org.uk/watermetercalculator) i gyfrifo ai mesurydd yw'r dewis gorau i chi.

Gallwch dreialu mesurydd dŵr am 2 flynedd (24 mis neu 30 niwrnod ar ôl eich 4<sup>ydd</sup> bil chwech misol). Os teimlwch yn ystod y cyfnod hwn nad yw mesurydd dŵr yn iawn i chi, gallwch newid yn ôl i filio heb fesurydd drwy'r Gwerth Ardrethol.

Nid yw cael mesurydd yn eithrio cwsmeriaid o gyfyngiadau dros dro ar ddefnydd nad yw'n hanfodol (gwaharddiadau ar bibelli dŵr) i ddiogelu cyflenwadau hanfodol. Mae gwaharddiadau ar bibelli dŵr yn cwmpasu cwsmeriaid â mesurydd a heb fesurydd, fel ei gilydd.

## **Sut y caiff Gwerth Adwerthol ei gyfrifo**

Y Gwerth Ardrethol yw'r mesur a ddefnyddir i gyfrifo maint y bil dŵr mewn eiddo heb fesurydd.

Nid yw gwerth ardrethol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r dŵr gwirioneddol a ddefnyddir, gan mai amcangyfrif ydyw. Aseiad oedd gwerthoedd ardrethol o werth rhent blynyddol eiddo, ac fe'u gwnaed gan y Swyddfa Brisiol, fel rhan o Gyllid y Wlad, hyd at 1990 pan ddisodlwyd y system ardrethi cyffredinol gan y system Treth Cyngor yn awr.

Ystyriai'r cyfrifo amryw o ffactorau, yn cynnwys maint a chyflwr yr eiddo bryd hynny. Fodd bynnag, er 1990 nid yw hi'n bosibl mwyach apelio yn erbyn y cyfrifiadau gwreiddiol.

Gosodwyd mesurydd dŵr ym mhob tŷ a adeiladwyd er 1990.

Mae'n ofynnol i bob cwmni dŵr yn ôl y gyfraith ddefnyddio hyn fel sail ar gyfer pennu taliadau i eiddo heb fesurydd.



## **Sut y gallai gosod mesurydd dŵr newid eich bil**

Pan ydych yn gwneud cais am fesurydd dŵr, bydd arnoch angen cyflwyno cais ar y ffôn neu drwy ffurflen ar-lein.

Cynllunnir y cais i gyfrifo p'un a fyddech yn arbed arian o gael mesurydd dŵr wedi'i osod.

Unwaith y bydd mesurydd dŵr wedi'i osod gan ein partneriaid mewn contract sy'n ymdrin â mesuryddion, Network Plus, rhoddir pecyn "Croeso i Fesuryddion Dŵr" ichi fydd yn egluro'r cylch bilio a buddion y mesurydd dŵr, yn ogystal ag yn rhoi cynghorion ynglŷn ag arbed dŵr.

Ein nod yw darllen eich mesurydd bob chwe mis, ac fe godir tâl arnoch am eich dŵr a'ch gwasanaethau carthffosiaeth, yn seiliedig ar faint o ddŵr sy'n mynd drwy'r mesurydd. Byddwch hefyd yn talu taliadau sefydlog am filio a darllen y mesurydd, a thâl am ddraenio dŵr wyneb, yn seiliedig ar faint eich eiddo.

Byddwch yn derbyn dau fil bob blwyddyn, un bob chwe mis, a'n nod bob amser fydd bod un o'r rhain yn seiliedig ar ddarlleniad gwirioneddol o'r mesurydd.

## **Os nad oes modd gosod mesurydd dŵr ichi**

Os nad oes modd gosod mesurydd dŵr ichi, neu os nad yw'n gorfforol bosibl, gwnawn asesu'ch cyfrif i weld a fyddech yn elwa o'n tariff taliadau a aseswyd.

Petaech yn elwa o'r tariff hwn, codir tâl arnoch ar sail nifer y bobl sy'n byw yn eich eiddo.

Os cewch eich bilio ar y tâl a aseswyd, gallwch ddal i dalu fesul rhandaliadau ar gynllun talu. Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, os hoffech sefydlu hyn.

## **Disgowntiau i aelwydydd un person**

Os ydych yn byw ar eich pen eich hun, argymhellwn eich bod yn cael mesurydd dŵr wedi'i osod i sicrhau eich bod yn talu dim ond am y dŵr a ddefnyddiwch.

Gosod mesurydd yw'r ffordd fwyaf cywir a thecaf o dalu am eich dŵr.

Os ydych yn rhentu'ch cartref, dylech wirio gyda'ch landlord os hoffech gael mesurydd dŵr wedi'i osod. Os ydynt yn cytuno, yna gallant wneud cais i gael mesurydd wedi'i osod, ac ymwelwn ninnau â chi i weld a yw'n bosibl gosod mesurydd yn eich cartref. Nid yw hi bob amser yn bosibl gosod mesurydd dŵr.

Os ydym wedi ceisio ac wedi methu â gosod mesurydd yn eich cartref yn ystod y 12 mis diwethaf, ac rydych yn byw ar eich pen eich hun, byddech yn gymwys ar gyfer ein Tariff Wedi'i Asesu i Un Meddiannydd.

Os ydych yn rhentu'ch cartref ac nid yw'ch landlord wedi cytuno i adael ichi osod mesurydd dŵr, yn anffodus, ni fyddwch yn gymwys ar gyfer y Tariff Wedi'i Asesu i Un Meddiannydd.

Ni fydd arnoch angen ymgeisio am y tariff un ddeiliadaeth; cewch eich trosglwyddo'n awtomatig i'r Tariff wedi'i Asesu i Un Meddiannydd o ddyddiad y ceisiwyd yn aflwyddiannus osod mesurydd yn eich cartref.

Yn anffodus, nid ydym yn gallu ôl-ddyddio'r Tariff wedi'i Asesu i Un Meddiannydd i ddyddiad cynharach.

## **Disgowntiau neu ad-daliadau am broblemau yn ymwneud â chyflenwadau dŵr a phroblemau ansawdd**

Gweithiwn yn galed bob diwrnod i sicrhau bod ein pwysedd dŵr ac ansawdd ein dŵr o'r safon uchaf. Fodd bynnag, gwyddom y gall digwyddiadau yn yr ardal effeithio weithiau ar bwysedd ac ansawdd eich dŵr, a gall olygu y gall ein cwsmeriaid brofi pwysedd neu ansawdd gwael dros dro.

Yn yr achosion hyn, pan effeithir arnoch yn sylweddol am gyfnod o amser, ni fyddwn yn gallu gostwng eich bil. Fodd bynnag, awn ati i wneud taliad i'ch cyfrif Hafren Trent o dan ein Cynllun Gwarant Safonau.

Gallwch ddarllen mwy o fanylion am hyn yn ein Cod Ymarfer, y gallwch ei ganfod ar-lein yn [www.hdcymru.co.uk/about-us/responsibility/our-responsibilities-to-you/your-rights-as-a-customer](http://www.hdcymru.co.uk/about-us/responsibility/our-responsibilities-to-you/your-rights-as-a-customer).

## **Sut y rhannir cyfrifoldeb am bibelli rhyngoch chi a ninnau**

Mae ein dŵr rhagorol yn wastad ar dap, ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau ei fod ar gael ichi 24/7. Bob diwrnod, anfonwn ein dŵr atoch drwy bibelli yn y ffordd fawr neu gasglu'ch gwastraff o'n carthffosydd.

## **Cyfrifoldeb am Bibell Ddŵr**


Y ni sydd piau'r bibell sy'n cysylltu'r brif bibell ddŵr yn y stryd â therfyn eich eiddo (a elwir yn aml yn bibell gyfathrebu) ac y ni sy'n gyfrifol am gynnal a chadw a sicrhau bod dŵr o ansawdd da yn llifo i'ch cartref.

Perchennog y cartref sy'n gyfrifol am y bibell sy'n rhedeg o derfyn eich eiddo at y man lle mae'n mynd i mewn i'ch cartref, ynghyd â'r holl waith plymio mewnol.

Dyletswydd y cwsmer dŵr yw trwsio unrhyw ollyngiadau yn y pibelli mewnol hyn.

Gallwch ddarllen mwy o wybodaeth am gyfrifoldeb am bibelli dŵr yn

[www.hdcymru.co.uk/my-services/pipes-and-drains/responsibility-and-ownership/water-pipe-responsibility](http://www.hdcymru.co.uk/my-services/pipes-and-drains/responsibility-and-ownership/water-pipe-responsibility).



### Cyfrifoldeb am Bibelli Carthffosydd

Mae yna ddau brif fath o garthffosydd – preifat a chyhoeddus. Y chi sy'n gyfrifol am garthffosydd preifat ac y ni sy'n gofalu am y carthffosydd cyhoeddus.


Mae yna hefyd ddraeniau a rhigolau priffyrdd sy'n gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol.

Mae'n bwysig deall pwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw ac atgyweirio draeniau a phibelli carthffosydd, yn enwedig os yw rhywbeth yn mynd o chwith.

I ddeall lle mae'r rhwydwaith carthffosydd a pha bibelli rydych chi'n gyfrifol amdanynt, gallwch ofyn am fap o garthffosydd gennym ar-lein yn [www.hdcymru.co.uk/building-and-developing/maps/request-a-water-sewer-map](http://www.hdcymru.co.uk/building-and-developing/maps/request-a-water-sewer-map).

Gallwch ddarllen mwy o wybodaeth am gyfrifoldeb am bibelli carthffosydd yn [www.hdcymru.co.uk/my-services/pipes-and-drains/responsibility-and-ownership/sewer-pipe-responsibility](http://www.hdcymru.co.uk/my-services/pipes-and-drains/responsibility-and-ownership/sewer-pipe-responsibility).

### Sewer pipe responsibility



### Cael gwared â rhwystrau yn eich pibelli

Oni bai eich bod yn blymwr neu fod gennych gefndir mewn draenio, gall hi fod yn anodd gwybod p'un a yw rhwystr yn eich pibelli preifat chi neu yn y garthffos gyhoeddus.

Dyma rai o'r arwyddion y gallwch gadw llygad arnynt i weld a yw'r rhwystr yn eich pibelli preifat chi ac felly perchennog y cartref sy'n gyfrifol amdanynt:

- Nid effeithir ar eich cymdogion
- Mae yna rwystr yn eich toiled i fyny'r grisiau ond mae lawr y grisiau yn iawn
- Mae'r rhwystr yn yr U bedol o dan eich sinc.

Os yw'r rhwystr yn eich pibelli preifat, yna bydd arnoch angen cysylltu â chontractwr preifat.

Gellir canfod rhestr lawn o'n plymwyr a gymeradwyir gan WaterSafe ar ein gwefan yn [www.hdcymru.co.uk/findaplumber](http://www.hdcymru.co.uk/findaplumber).

Os yw'r rhwystr yn y pibelli carthffosydd cyhoeddus, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, a byddwn yn gallu'ch helpu.

I gael mwy o wybodaeth am hyn, cyfeiriwch, os gwelwch yn dda, at ein Canllaw Perchenogaeth Carthffosydd Preifat.

Os yw'n peiriannydd yn mynychu'ch eiddo ac mae'n canfod bod y rhwystr yn eich pibell breifat chi, efallai y gallwn glirio hyn ichi am dâl o £114, yn cynnwys TAW. Nid oes yna rwymedigaeth i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn, a gallwch ddewis mynd at gwmni draenio annibynnol.

Os hoffech ddefnyddio'n gwasanaeth, mae'n rhaid gwneud y taliad drwy gerdyn Debyd neu Gredyd cyn inni ddechrau ar y gwaith.

Ni warantir y gwasanaeth hwn bob amser, ac weithiau, mewn sefyllfaoedd mwy cymhleth, efallai na all ein peirianwyr eich helpu, a gallant yn hytrach eich cynghori i gysylltu â chontractwr preifat.

Os felly y bydd hi, ac rydych eisoes wedi talu'r £114, ad-dalir y swm llawn ichi. Y cyfan y bydd arnoch angen ei wneud yw darparu copi o'ch derbynneb inni.

Unwaith y bydd ein peirianwyr wedi ymadael â'r safle, ni allwn aildrefnu dychwelyd yn ddiweddarach i glirio'r rhwystr yn eich pibelli preifat.

Os ydych yn byw yn Wrecsam, efallai mai Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am eich taliadau dŵr gwastraff.

Os oes gennych rwystr, gallwch gysylltu â nhw drwy fynd i'w gwefan [www.dwrcymru.com/en/our-services/wastewater/sewer-blockages](http://www.dwrcymru.com/en/our-services/wastewater/sewer-blockages) neu gallwch eu ffonio ar 0800 085 3968.

## **Gwasanaethau â Blaenoriaeth a chymorth ariannol**

Deallwn y gallech weithiau eich canfod eich hun mewn sefyllfa anodd lle nad ydych yn gallu talu'ch bil.

Cynigiwn ystod eang o gynlluniau cymorth y gallwch elwa ohonynt. Gallwch ddarllen mwy o wybodaeth am yr opsiynau cymorth ariannol rydym yn eu darparu yn [www.hdcymru.co.uk/financial-support](http://www.hdcymru.co.uk/financial-support).

A fyddech cystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd inni am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau chi neu'ch teulu fel y gallwn eich cynorthwyo yn y ffordd orau bosibl.

Gallwch ddarllen am y Gwasanaethau â Blaenoriaeth rydym yn eu darparu a sut y gallent eich helpu yn [www.hdcymru.co.uk/priority](http://www.hdcymru.co.uk/priority).

Neu fel arall, gallwch ein ffonio ar 0800 085 4986. Rydym yn agored o 8.00yb tan 6.00yh o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac o 8.30yb tan 2.30yp ar ddydd Sadwrnau.

## **Cysylltu â ni**

Os oes gennych ragor o gwestiynau o gwbl am y canllaw hwn, cofiwch beidio â phetruso cyn cysylltu â ni, ac fe wnawn geisio ateb eich cwestiynau.